



Yn Uchel ac yn Groch

Ein sgwrs fawr am ariannu gyda'r
trydydd sector yng Nghymru



Gwrando a dysgu

Mae yna dros 30,000 o grwpiau cymunedol ac elusennau yng Nghymru, sy'n gweithio i wella a datblygu eu cymunedau, ac sy'n rhedeg mentrau a phrosiectau i gyfarfod ag anghenion lleol.

Y sefydliadau bychain gyda'u gwreiddiau'n ddwfn yn y ddaear yw'r rhai sy'n gallu helpu eu cymunedau orau, nhw sy'n adnabod y bobl ac yn deall yr heriau sy'n eu hwynebu.

Bu tîm Sefydliad Cymunedol Cymru'n cyfarfod ac yn siarad gyda **mwya na 100** o grwpiau cymunedol ac elusennau ar draws Cymru – rhai bach a rhai mawr, yn gweithio ar draws pob math o wahanol gymunedau.

Roedden ni eisiau gwrando arnyn nhw a dysgu mwy am eu heriau.

Roedden ni eisiau darganfod beth sy'n wirioneddol bwysig iddyn nhw a sut y gallwn ni eu cefnogi orau.



RICHARD WILLIAMS
Prif Weithredwr

“Rydyn ni’n credu ym mhobl Cymru ac yn eu gallu i gryfhau ein cymunedau.

Mae’n bwysig ein bod ni’n deall pa un yw’r ffordd orau o sianelu ein cefnogaeth wrth gyflwyno grantiau ac adeiladu cysylltiadau, er mwyn helpu pobl a grwpiau yn y ffordd orau.

Mae’r sector yng Nghymru wedi rhoi neges glir iawn i ni ynghylch y gefnogaeth y maen nhw ei angen. Nid cronfa arloesi arall nac ariannu’n hael yn y tymor byr sydd eu hangen - maen nhw angen rhaglenni sy’n ariannu yn y tymor hir a rhai a cefnogaeth i’w diben craidd.

Bydd y canfyddiadau hyn yn siapiro sut rydym ni yn gweithio yn y dyfodol. Ond, roedden ni hefyd eisiau eu rhannu er mwyn i’n partneriaid, sy’n rhannu ein nodau, allu elwa o’r un syniadau ac ystyried sut y maen nhw eisiau ymateb.

Cynhaliwyd y sgysiau yma cyn i’r feirws gyrraedd. Heb amheuaeth, ers hynny mae pethau wedi gwaethygu i grwpiau yng Nghymru, gyda llawer nawr yn ymladd i ddal ati. Mae’r negeseuon a glywsom yn fwy perthnasol nag erioed ac mae yn bwysig eu rhannu.”

Mae'r neges yn uchel ac yn groch

Mae elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru eisiau i arianwyr flaenoriaethu arian craidd a phartneriaethau tymor hir.

Dyma'r neges gref, glir a ddaeth allan o sgwrs fawr Sefydliad Cymunedol Cymru gyda'r sector.

Rydyn ni'n gwybod fod hwn yn gyfnod heriol i sefydliadau yng Nghymru gydag arian o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'n y Deyrnas Gyfunol brin, toriadau mewn arian cyhoeddus ac er bod y cyhoedd yng Nghymru'n hael, mae llawer yn byw ar gyflogau sy'n is na chyfartaledd y DG.

Gyda'r cefndir heriol hwn, dyma'r negeseuon oedd i'w clywed yn uchel ac yn groch, ac a fydd, yn siŵr, yn cyseinio gydag elusennau a grwpiau dros Gymru gyfan.

Rhagor o arian craidd i gefnogi grwpiau i fodoli a darparu

- Roedd bron iawn pob sefydliad roedden ni wedi siarad â nhw **(91%)** yn dweud mai arian oedd eu pryder pennaf. Roedd hynny cyn Covid-19 a fydd, yn ddiamau, wedi gwaethygu pethau.
- Dywedodd elusennau wrthym fod angen rhagor o arian craidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dal i fodoli – y math o arian sy'n talu'r biliau trydan, rhent y swyddfa a chyflogau staff.
- Mae arian craidd hefyd yn hanfodol i wneud yn siŵr bod elusennau'n gallu cadw eu staff, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd yn ddiogel rhag niwed gyda llywodraethiant cryf a chadarn.
- Yn rhy aml, clywsom fod yn rhaid i elusennau chwilio am syniadau am brosiectau newydd i gael arian – a hynny'n aml yn eu tynnu i ffwrdd o'u gwaith craidd ac oddi wrth y gwasanaethau y mae'r cyhoedd wirioneddol eu hangen.

Pecynnau ariannu tymor hir i helpu grwpiau i gynllunio ar gyfer y dyfodol

- Dywedodd grwpiau wrthym eu bod yn cael trafferth i ymateb i drefn o orfod cyflwyno ceisiadau am arian drosodd a throsodd.
- Byddai cytundebau tymor hir yn eu helpu i ddarparu cymaint yn fwy ac i gyfeirio eu hadnoddau i weithio dros eu cymunedau yn hytrach na mynd ar y chwyrlu gwgan parhaus o gyflwyno ceisiadau am arian.

Cylch Meithrin Wyddgrug

“Mae yna ddigon o arianwyr sy'n gallu ein helpu i brynu offer a rhedeg prosiectau. Mae ein cypyrddau'n llawn o deganau a phethau i redeg gweithgareddau. Ond does gennyn ni ddim arian i dalu am drydan i gael golau nac i dalu cyflogau ac yswiriant. Canfod yr arian craidd i'n cadw ni ar agor yw ein problem fwyaf.”

'Rydyn ni angen rhagor o arian craidd'

- Mae elusennau a grwpiau cymunedol angen arian craidd i fodoli – i dalu eu biliau trydan, talu am gostau hyfforddiant diogelu eu staff a'u gwirfoddolwyr, cynnal cofnodion aelodaeth neu'r enghreifftiau di-ri eraill o dasgau hanfodol sy'n angenrheidiol i oroesi.
- Dywedodd grwpiau wrthym mai anaml y bydd ariannwr eisiau cefnogi'r costau craidd, mae'n well ganddyn nhw, fel arfer, ariannu prosiectau newydd. Canlyniad hynny yw fod grwpiau'n gorfod treulio amser yn ail wampio eu gwasanaethau i'w gwneud yn fwy deniadol i arianwyr. Mae hefyd yn gadael grwpiau gyda'r pen tost o sut i dalu'r costau craidd.
- Dro ar ôl tro wrth siarad â grwpiau mi glywsom am yr angen am ariannu craidd. Hwn oedd un o'r negeseuon cryfaf i ni glywed yn ystod ein sgwrs fawr. A hynny yn gyson, o'r sefydliad lleiaf i'r mwyaf, ar draws pob sector ac o bob.
- Roedd rhai grwpiau hefyd yn credu fod eu hachos yn gwneud codi arian yn anodd. Clywsom hynny gan grwpiau'n gweithio gyda chymunedau BAME, pobl gydag anabledd a chymunedau'n siarad Cymraeg.

Cerebral Palsy Cymru

"Mae'n anodd cael arian dilynol ar gyfer prosiectau sy'n bodoli eisoes. Gallai hynny olygu bod amcanion y sefydliad yn cael eu hanwybyddu er mwyn bodloni'r ariannwr yn hytrach na bodloni'r gofynion."

South Riverside

"Does gennym ni mo'r gallu i ymateb i gyfleoedd ariannu. Rydym ni'n brin o incwm craidd ac rydym ni'n gweld ariannu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn diflannu. Yn gyffredinol, dim ond un cyfle mewn 10 sydd gennym ni o gael arian grant. 90% o'r amser, rydym ni'n cael ein gwrthod."



Purple Shoots

"Dyw arianwyr yn meddwl am sefydliadau bychain. Mae'n rhaid i ni argraffu cannoedd o dudalennau a'u hanfon mewn. Does ganom ni ddim offer printio o safon fel swyddfeydd ac mae felly yn cymryd hydoedd. Mae arianwyr eraill eisiau tystiolaeth ein bod yn gweithio o'r gwaelod fyny, maen nhw eisiau i ni wneud arolygon. Mae hynny'n ei gwneud hi yn anos i ddenu cronfeydd."

'Dylai arianwyr edrych ar y tymor hir'

- Dywedodd grwpiau wrthym eu bod yn cael eu gorfodi i dreulio gormod o amser yn ysgrifennu ceisiadau am arian, yn aml ar gyfer arianwyr y maen nhw eisoes yn gweithio gyda nhw.
- Byddai ymestyn cyfnodau ariannu'n rhoi mwy o sicrwydd i sefydliadau, er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol ac arbed gwaith gweinyddu iddyn nhw eu hunain ac i'r arianwyr.
- Cytunodd **69%** o ymatebwyr y byddai tymor hirach o ariannu – yn debycach i dair neu bedair blynedd, efallai wedi'i dapro – o fudd, hyd yn oed gyda grantiau bach.
- I rai sefydliadau sy'n gweithio mewn gwasanaethau ataliol, nid yw cytundebau tymor byr yn gallu dangos tystiolaeth o ganlyniadau da.
- Mae cytundebau tymor byr hefyd yn arwain at gynnydd mewn trosiant staff a diffyg parhad gyda gwasanaethau.

Bedford Street

"Dylai'r ariannu fod yn gynaliadwy, dros gyfnod hwy o amser. Dylai arianwyr fod â hyder yn yr hyn rydym yn ei wneud fel nad oes rhaid i ni ail gyflwyno'r un peth drosodd a throsodd o hyd. Gwobrwo'r hyn sy'n gweithio. O ddewis, pedair blynedd o gyllid er mwyn gallu gwerthuso a monitro."

Safer Merthyr Tydfil

"Mae'n gwaith arbenigol angen ei ariannu dros yr hirdymor. Mae'n gallu i gynllunio, peilota a datblygu gwasanaethau yn cael ei amharu yn ddifrifol gan gynlluniau ariannu un flynedd. Arweinia'r ansicrwydd am arian yma wedyn at golled o arbenigrwydd."



North Wales Women's Centre

"Mae ariannu'n her barhaus. Mae ansicrwydd yn effeithio ar drosiant staff – mae pobl yn gadael os ydyn nhw'n ansicr. Cynaliadwyedd yw ein problem fwyaf – nid arian yn unig. Nid yw ariannu tymor byr yn ein galluogi i sefydlu parhad ac mae hynny'n effeithio ar yr hyn y mae'r gymuned yn ei ddisgwyl gennym."

Am beth arall glywsom ni?

Ceisio cyfarfod â gwahanol anghenion

Challenge Wales

"Canfod gwirfoddolwyr addas – sefyllfaoedd heriol. Mae ehangu yn golygu bod angen rhagor, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Y gallu i wneud y gwaith, recriwtio, bidiau, adrodd yn ôl, gwerthuso, arian ayb."

Llanybydder Family Centre

"Os yw pobl yn ddi-waith, efallai nad oes ganddyn nhw gerbyd a chan fod cludiant cyhoeddus yn brin yn yr ardal, efallai ei bod yn anodd cyrraedd y ganolfan. Trafferth cael at wasanaethau oherwydd ardal wledig."

Monday Club

"Poblogaeth yn heneiddio, grŵp cymunedol a gwirfoddol."

Voluntary Arts Wales

"Mae'n anodd cael arian i deithio i gael presenoldeb ym mhob rhan o Gymru pan mae arian ar gyfer prosiectau'n brin."

Rubicon Dance

"Ceisiadau a gwerthusiadau cymesur â'r grant sy'n cael ei gynnig. Tymhorau ariannu hirach. Prin bod un flwyddyn yn ddigon hir i sefydlu prosiect. Yna, mae'n anodd cael arian i barhau, sy'n gwneud i rywun i feddwl a oedd yn cyfan yn werth y drafferth."

- Yn ein sgysiau, soniodd grwpiau fod yna lawer iawn o heriau eraill yn eu hwynebu wrth geisio codi arian.
- Bydd eu neges o ddiddordeb i arianwyr yng Nghymru, a thu hwnt, ac yn eu helpu i ddod i ddeall gwahanol anghenion ein cymunedau.
- Roedd grwpiau mewn ardaloedd gwledig yn dweud wrthym eu bod yn wynebu costau teithio ychwanegol a thrafferthion cael gwirfoddolwyr, yn enwedig rhai'n siarad Cymraeg.
- Roedden nhw'n dweud hefyd fod arianwyr yn cael trafferth i ddeall deinameg y gwahanol gymunedau yng Nghymru a'n cyd-destun o bolisi wedi ei ddatganoli.

Beth arall oedden ni'n ei glywed?

Yr heriau o ymgeisio am grantiau gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Cardiff Garden Salad

"Rydyn ni'n cael llawer o adborth gan arianwyr yn dweud bod ein ceisiadau'n rhai da ond bod y gronfa wedi'i gordanysgrifio, a dim mwy. Dyw hynny ddim yn adborth gwerth ei gael, a dweud y gwir. Rwy'n siŵr y byddai mwy o adborth ynghylch ceisiadau sy'n cael eu gwrthod o help."

- Roedd bron i hanner y grwpiau (**48%**) roedden ni wedi siarad â nhw'n dweud nad ydyn nhw'n ymgeisio i Sefydliadau y tu allan i Gymru.
- Y broblem o ysgrifennu ceisiadau oedd yn codi fwyaf. Mewn sefydliadau llai, cyfrifoldeb y Prif Weithredwr neu aelod o'r bwrdd yw ysgrifennu bidiau.
- Roedd llawer o sefydliadau'n teimlo nad ydyn nhw'n gwybod digon am yr hyn sydd ar gael nac o'r hyn mae arianwyr yn chwilio amdano.
- Roedd diffyg adborth gan arianwyr yn ei gwneud yn anodd i sefydliadau ddysgu a gwella.

TOGs

"Does gan llawer o grwpiau bychan mo'r gallu i ymgeisio. Gallai hynny fod oherwydd diffyg profiad neu arbenigedd, ac, efallai, ddiffyg gwybodaeth o beth mae arianwyr yn chwilio amdano."

Village Enterprise Wales

"Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw lwyddiant, dim o gwbl, wrth ymgeisio i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Ychydig iawn o adborth ydyn ni'n ei gael, byddai mwy o adborth yn help i ni gyda cheisiadau yn y dyfodol."

Gyda phwy roedden ni'n siarad?

Bu Sefydliad Cymunedol Cymru'n cyfweld mwy na 100 o sefydliadau ledled Cymru yn ystod Haf/Hydref 2019.

Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau bach a mawr, rhai'n derbyn arian drwy Sefydliad Cymunedol Cymru a rhai ddim.

Cysylltwyd â'r sefydliadau gyntaf trwy'r post a hefyd drwy alwad agored ar Twitter a LinkedIn.

O'r sefydliadau rydyn ni wedi siarad â nhw:

- Doedd **15%** ddim yn cyflogi staff o gwbl
- Roedd **44%** yn cyflogi rhwng un a phump aelod o staff yn cael eu talu
- Roedd **26%** yn cyflogi rhwng 6 ac 20 aelod o staff yn cael eu talu

Roedd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal gan aelodau staff Sefydliad Cymunedol Cymru.

Dilyswyd y data gan Veronika Brannovic o Brifysgol Caerdydd ac mae wedi'i grynhoi ar gyfer y ddogfen hon.



Beth nesaf?

Cynhaliwyd y sgysiau a siapiodd yr adroddiad yma cyn Covid-19 a'i effaith dinistriol ar y sector elusennol. Ond mae'r negeseuon yr un mor berthnasol - os nad yn fwy.

Felly, beth sydd am ddigwydd nesaf?

Fel canlyniad i hyn, mae ymddiriedolwyr Sefydliad Cymunedol Cymru wedi cytuno i ddatblygu ffocws cryfach ar grantiau craidd a rhaglenni grantiau mwy hirdymor.

Byddwn yn rhannu'r adroddiad a'r darganfyddiadau gyda'n partneriaid er mwyn eu hysbysu am anghenion cymunedau Cymru a'r modd orau o estyn cefnogaeth.

Os hoffech chi ein cefnogi ni gyda hyn, cofiwch gysylltu â ni:



info@communityfoundationwales.org.uk



[@walescf](https://www.facebook.com/walescf)



[@foundationwales](https://twitter.com/foundationwales)



Friends of Community Foundation Wales